Brîff Wythnosol BIPBC – 9.9.2021

Amddiffyn ein cleifion, ein hymwelwyr a'n staff

Oherwydd y cynnydd yn nifer yr achosion COVID-19 yn ein hysbytai, mae'n rhaid i ni ohirio rhywfaint o lawdriniaethau a gynlluniwyd yn y tymor byr fel y gallwn ofalu am gleifion yn ddiogel.

Gwnaed y penderfyniad anodd hwn i sicrhau y gallwn ddarparu capasiti ychwanegol yn ddiogel ar ein safleoedd, oherwydd nifer y bobl sy'n cael eu trin am haint COVID-19 yn yr ysbytai.

Nid oedd gohirio llawdriniaethau dewisol yn benderfyniad hawdd a hoffem ymddiheuro am unrhyw drallod a siom y bydd hyn yn ei achosi.

Efallai y bydd yn rhaid i ni hefyd gyfyngu ar ymweld lle rydym yn teimlo bod risg uwch i'r firws gael ei ledaenu yn ein lleoliadau gofal iechyd, a byddwn yn rhoi gwybod i bobl wrth i benderfyniadau gael eu gwneud.

Mae'r cynnydd yn nifer yr achosion COVID-19 ledled Gogledd Cymru yn dangos bod y firws yn parhau i fod yn risg sylweddol i'n gwasanaeth iechyd.

Rydym am atgoffa pobl ynghylch pwysigrwydd dilyn y canllawiau sydd ar waith er mwyn helpu i leihau lledaeniad y firws yn ein cymunedau ac i dynnu'r pwysau oddi ar Wasanaethau'r GIG.

Diweddariad am y Brechlyn

Mae bron i 90 y cant o boblogaeth cymwys Gogledd Cymru wedi cael eu dos cyntaf o'r brechlyn COVID-19, gyda 82 y cant wedi cael eu hail ddos.

Rydym wedi gweld nifer dda ymhlith pobl ifanc 16-17 mlwydd oed gyda bron i 10,000 o frechiadau COVID-19 yn cael eu rhoi. Er mwyn galluogi mwy o bobl i gael eu brechu ar draws ein hardal eang, byddwn yn defnyddio ein hunedau brechu symudol i dargedu'r rhai 16-17 mlwydd oed, gan ein bod yn ymwybodol iawn y gall y grŵp oedran hwn ei chael hi'n anodd teithio i ganolfannau brechu oherwydd eu bod yn fwy dibynnol ar y cludiant cyhoeddus neu aelodau'r teulu.

BCUHB Weekly Briefing – 9.9.2021

Protecting our patients, visitors and staff

Due to the rise in the number of COVID-19 cases in our hospitals we are having to postpone some planned surgery in the short term so we can safely care for patients.

This difficult decision has been made to ensure we can safely provide extra capacity on our sites, due to the number of people being treated for COVID-19 infection at the hospitals.

Postponing elective operations is not a decision that we have taken lightly and we would like to apologise for any distress and disappointment that this will cause.

We may also have to restrict visiting where we feel there is an increased risk of the virus being spread in our healthcare settings, and will keep people informed as and when decisions are made.

The rise in the number of COVID-19 cases across North Wales shows the virus still remains a significant risk to our health service.

We want to remind people as to the importance of following the guidance in place in order to help reduce the spread of the virus within our communities and to take the pressure off NHS Services.

Vaccination Update

Nearly 90 per cent of the eligible population of North Wales have had their first dose of the COVID-19 vaccine, while 82 per cent have had their second.

We have seen good take up among 16-17-year-olds with almost 10,000 COVID-19 vaccinations administered. To enable further take up across our broad geography we will be deploying our mobile vaccination units to target those aged 16-17, as we are well aware that this age group can find it difficult to travel to vaccination centres because they are more reliant on public transport and lifts from family members.

I gefnogi hyn, byddwn yn gweithio gydag awdurdodau lleol a cholegau ar draws y rhanbarth dros yr wythnosau nesaf.

Hoffem atgoffa pawb sy'n gymwys ar gyfer y brechlyn COVID-19 bod ffordd gyflym a hawdd i drefnu'ch dos cyntaf neu'r ail ddos gan ddefnyddio ein gwasanaeth trefnu apwyntiad ar-lein neu trwy fynychu un o'n sesiynau galw-heibio, nad oes angen apwyntiadau ar eu cyfer.

In support of this we will be working with our local authorities and colleges across the region over the coming weeks.

We'd like to remind all those eligible for the COVID-19 vaccine that it's quick and easy to book your first or second dose using our online booking service or by attending one of our walk in sessions, for which appointments are not required.

Brechlyn atgyfnerthu COVID-19

Rydym yn parhau i aros am y cyngor terfynol gan y Cyd-bwyllgor ar Frechiadau ac Imiwneiddiadau (JCVI) ar sgôp y rhaglen atgyfnerthu COVID-19.

Rydym hefyd yn gofyn i'r rhai sy'n debygol o fod yn gymwys yn seiliedig ar gyngor dros dro y JCVI i fod yn amyneddgar a chofio nad oes angen i chi gysylltu â ni i drefnu apwyntiad. Cysylltir â chi'n uniongyrchol pan ddaw eich tro chi.

Oherwydd y ffordd y mae brechiadau COVID-19 a'r Ffliw yn cael eu cyflwyno a'r dyddiadau cychwyn disgwyliedig ar gyfer yr ymgyrchoedd, ni fydd yn arfer safonol i roi'r pigiadau hyn ar yr un pryd.

COVID-19 vaccine booster

We are still awaiting final advice from the Joint Committee on Vaccination and Immunisation (JCVI) on the scope of the COVID-19 booster programme.

We ask those who are likely to be eligible based on the JCVI's interim advice to please be patient and remember that there is no need to contact us to book an appointment. You will be contacted directly when it is your turn.

Due to the way in which the COVID-19 and Flu vaccinations are delivered and the expected start dates for the respective campaigns, it will not be standard practice to give people these jabs at the same time.

Ysbryd gwrth-frechlyn yn caledu?

Yn y diweddariad ar frechiadau COVID-19 yr wythnos diwethaf, rhoddwyd trosolwg o ymdrechion y staff i sicrhau fod pawb wedi cael y cyfle i gael eu brechu. Fe wnaethom nodi ymdrechion staff ein Canolfannau Cyswllt Brechiadau COVID-19 a geisiodd gysylltu â dros 1,500 o bobl dros benwythnos Gwyliau'r Banc, gan arwain at 111 o apwyntiadau ar gyfer y brechiad.

Adroddwyd hyn gan rai o'r cyfryngau lleol fel tystiolaeth fod yr 'ysbryd gwrth-frechlyn yn caledu' ar draws y rhanbarth. Fodd bynnag, nid oes tystiolaeth o gwbl i ddangos hyn.

Ni wnaeth 60 y cant o'r 1,500 galwad ffôn gan ein staff gael eu hateb, tra roedd dros hanner y rhai y llwyddom i siarad â nhw wedi cael eu brechiad yn barod, wedi trefnu apwyntiad, neu yn bwriadu trefnu ar-lein.

Anti-vaccine mood hardening?

In last week's COVID-19 vaccination update we provided an overview of the lengths our staff have gone to in order to ensure that people have the opportunity to be vaccinated. We cited the efforts of our COVID-19 Vaccination Contact Centre staff, who attempted to contact around 1,500 people over the Bank Holiday weekend, leading to 111 booked vaccination appointments.

This was reported by some of our local media as evidence of 'anti-vaccine mood hardening' across the region. However, this is simply not borne out by the evidence.

Almost 60 per cent of the 1,500 phone calls made by our staff went unanswered, while over half of those we managed to speak to said they had already been vaccinated, had an appointment booked, or planned to book online.

Trefnwyd apwyntiad ar gyfer 20 y cant o'r rhai y siaradwyd â nhw, tra dywedodd saith y cant nad oeddent yn dymuno cael eu brechu.

Llwyddiant Recriwtio

Yn dilyn llwyddiant ein digwyddiad recriwtio fis diwethaf, rydym yn edrych ymlaen at groesawu oddeutu 50 o staff ychwanegol at ein timau brechu yn yr wythnosau sydd i ddod.

Mewn rhai achosion, bydd ein recriwtiaid newydd yn cymryd lle'r staff brechu cyfredol, sydd yn dychwelyd i'w prif rolau ar draws y bwrdd iechyd.

Mae'n bosibl y bydd digwyddiadau recriwtio pellach yn cael eu cynnal yn yr wythnosau sydd i ddod. Bydd y rhain yn cael eu cyhoeddi'n eang ar y cyfryngau cymdeithasol ac ar ein gwefan.

Cael y gofal a'r gefnogaeth gywir o'r lle cywir

Mae gwasanaethau iechyd a gofal ar draws Gogledd Cymru yn parhau i fod yn eithriadol o brysur ac o dan bwysau enfawr. Yn arbennig, mae ein hysbytai yn wynebu galw sylweddol am ofal a chefnogaeth brys, gyda llawer o'r rhain yn gallu cael eu darparu'n fwy priodol yn y gymuned.

Dylai unrhyw un sydd ag anaf neu salwch nad yw'n peryglu bywyd ffonio 111 yn rhydd o linell dir neu ffôn symudol, lle byddant yn derbyn cefnogaeth ac arweiniad 24 awr neu ymweld â gwefan NHS 111 yma.

Rydym yn gweithio'n agos gyda'r GIG a'n partneriaid awdurdodau lleol i reoli galw, yn arbennig sicrhau mynediad ar gyfer ambiwlansys a galluogi rhyddhau cyn gynted ag y gellir cefnogi cleifion i adael yr ysbyty.

Mae ein staff a'n partneriaid yn gweithio'n hynod o galed o dan amgylchiadau heriol, ac rydym yn parhau i fod yn ddiolchgar iddynt am bopeth maen nhw'n ei wneud.

Rydym yn parhau i ganolbwyntio ar y blaenoriaethau hyn:

Appointments were booked for 20 per cent of those we managed to speak to, while just seven per cent said they did not want to be vaccinated.

Recruitment success

Following the success of our recruitment event last month, we're looking forward to welcoming around 50 additional staff into our vaccination teams in the coming weeks.

In some cases, our new recruits will replace current vaccination staff, who are returning to their substantive roles across the Health Board. Further recruitment events may be held in the coming weeks. These will be widely publicised on social media and on our website.

Get the right care and support from the right place

Health and care services across North Wales remain exceptionally busy and under huge pressure. In particular, our hospitals are facing significant demand for urgent care and support, much of which can be accessed more appropriately in the community.

Anyone with an injury or illness that is not life-threatening should call 111 free from a landline or mobile phone, where they will receive 24-hour support and guidance or visit the NHS 111 Wales website here.

We are working closely with NHS and local authority partners to manage demand, particularly ensuring access for ambulances and enabling discharge as soon as patients can be supported to leave hospital.

Our staff and partners are working extremely hard in very challenging circumstances, and we remain grateful to them for all they are doing.

We remain focused on these priorities:

- Providing urgent and emergency care for those who need it
- Restarting planned care to reduce waiting lists

- Darparu gofal brys ac argyfwng i'r rhai sydd ei angen
- Ailddechrau gofal wedi'i gynllunio i ostwng rhestrau aros.
- Rheoli galw cynyddol drwy ymwelwyr a phreswylwyr yr haf sy'n mwynhau Gogledd Cymru
- Darparu gofal sydd mor ddiogel â phosib yng nghyd-destun heintiau COVID-19 sy'n codi

I unrhyw un sydd â salwch neu anaf mân, gellir gael rhagor o wybodaeth ar ein gwefan yma.

Fferyllfeydd Llŷn yn chwarae rôl hanfodol i helpu'r GIG i ymdopi â haf llawn twristiaid

Mae fferyllwyr yn un o gyrchfannau mwyaf poblogaidd twristaidd Cymru yn chwarae rhan hanfodol wrth helpu i ateb y galw digynsail am wasanaethau gofal iechyd dros fisoedd yr haf.

Gyda chyfyngiadau COVID-19 wedi eu llacio, mae ymwelwyr wedi heidio i'r Ben Llŷn gyda'r nifer fwyaf erioed o dwristiaid yn ymweld yr haf hwn.

Mae fferyllfeydd ledled Gogledd Cymru wedi bod yn chwarae eu rhan i leihau effaith twristiaeth ar wasanaethau lleol y GIG. Mae pob fferyllfa'n gallu cyflenwi meddyginiaethau rheolaidd brys i dwristiaid sydd wedi anghofio eu meddyginiaethau gartref.

Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd wedi galluogi ymwelwyr i gael mynediad at y cynllun mân anhwylderau o fewn fferyllfeydd sy'n rhoi cyngor ac arweiniad arbenigol ynghylch trin cyflyrau cyffredin a'u symptomau.

Yn ardal Dwyfor derbyniwyd cyllid gan y Clwstwr Meddygon Teulu lleol, er mwyn darparu cymorth fferyllol ychwanegol mewn nifer fechan o fferyllfeydd i alluogi twristiaid i gael gafael ar

- Managing a rising tide of demand through summer visitors and residents who are enjoying North Wales
- Providing care which is as safe as possible in the context of rising COVID-19 infections

More information for anyone who has a minor illness or injury can also be found on our website here.

Llŷn pharmacies' crucial role in helping the NHS cope with summer tourism boom

Pharmacists in one of Wales' tourist hotspots are playing a crucial role in helping to meet unprecedented demand for health care services over the summer months.

With COVID-19 restrictions eased, visitors have flocked to the Llŷn Peninsula in record numbers this summer.

Pharmacies across North Wales have been playing their part in reducing the impact of tourism on local NHS services. All pharmacies are able to supply emergency repeat medication to tourists who have forgotten their medicines at home.

The Health Board has also enabled holidaymakers to access the community pharmacy minor ailment scheme, which provides expert advice and guidance about treating common conditions and their symptoms.

In the Dwyfor area, with funding from the local GP Cluster, additional pharmacy assistance has been provided in a small number of pharmacies to enable tourists to access timely and appropriate support for a range of acute conditions through the independent prescribing scheme.

The scheme enables pharmacists to write prescriptions for minor illnesses, including ear, nose and throat infections, skin conditions and urinary infections.

During July and August around 850 independent prescribing consultations have been carried out by Llŷn pharmacists, with holiday makers accounting for around half of these.

gymorth amserol a phriodol ar gyfer ystod o gyflyrau llym trwy'r cynllun rhagnodi annibynnol.

Mae'r cynllun hwn yn galluogi fferyllwyr i ysgrifennu presgripsiynau ar gyfer anhwylderau llai, gan gynnwys heintiau ar y glust, y trwyn a'r gwddf, cyflyrau croen a heintiau wrinol.

Yn ystod mis Gorffennaf ac Awst cynhaliwyd oddeutu 850 o ymgynghoriadau rhagnodi annibynnol gan fferyllwyr ardal Llŷn, ac roedd ymwelwyr yn cyfrif am tua hanner y rhain.

Mae hyn wedi helpu i ostwng y niferoedd sy'n mynychu Adran Achosion Brys Ysbyty Gwynedd ac Uned Mân Anafiadau Ysbyty Bryn Beryl a chaniatáu mynediad parhaus at wasanaethau meddygon teulu a fferyllfeydd i'r bobl leol.

Nod Llywodraeth Cymru yw ymestyn y cynllun rhagnodi annibynnol i bob fferyllfa yng Nghymru erbyn 2030.

I gael rhagor o newyddion a diweddariadau gan y Bwrdd Iechyd, gweler ein gwefan a'n sianeli ar y cyfryngau cymdeithasol (Facebook a Twitter).

This has helped to reduce attendances at Ysbyty Gwynedd's Emergency Department and Ysbyty Bryn Beryl's Minor Injuries Unit, while maintaining access to GP and pharmacy services for local people.

The Welsh Government aims to extend the independent prescribing scheme to every pharmacy in Wales by 2030.

For further news and updates from the Health Board, please check our website and social media channels (Facebook and Twitter).